RHONDDA CYNON TAF

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**22 EBRILL 2021**

**CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL 2020**

**ADRODDIAD AR Y CYD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A'R CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi trosolwg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor a gafodd ei gyflwyno a'i gytuno yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Ionawr 2021.

## 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

2.1 Nodi'r wybodaeth sydd wedi'i darparu o ran Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.

## 3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae angen rhoi diweddariad i Aelodau'r Grŵp Llywio ynglŷn â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ar ôl i'r Cabinet ei drafod.

## 4. CEFNDIR

4.1 Yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Ionawr 2021, cafodd Aelodau'r Cabinet eu diweddaru ynglŷn â'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y cyfnod 2017–2020, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2018.

4.2 Y disgwyl oedd mai diweddariad blynyddol 2019–2020 fyddai'r un olaf ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn, ond oherwydd y pandemig Covid-19, mae'r Cynllun wedi'i ymestyn ar gyfer cyfnod 2020–2021.

4.3 Mae'r ddolen i'r adroddiad Cabinet a gafodd ei drafod ar gael yma: Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Yn ogystal â hynny, mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn amlinellu'r Diweddariad Cynnydd – Rhagfyr 2020 a'r cynllun cynnydd cysylltiedig.

4.4 Cynhaliwyd gwaith craffu ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr, 2021.

4.5 Ar ôl trafod yr wybodaeth a ddarparwyd, cytunodd y Cabinet ar y diweddariad blynyddol.

## 5. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

5.1 Adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn ac nid yw'n effeithio'n negyddol ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymwneud â'i gynnwys.

## 6. YMGYNGHORI

6.1 Nid yw hyn y berthnasol. Serch hynny, bydd angen ymgynghori ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn ystod y 12 mis nesaf.

## 7. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

7.1 Mae unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u hamlinellu yn adroddiad y cabinet.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL *NEU* DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol ar hyn o bryd.

## 9. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

9.1 Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gysylltiedig â Chynllun Corfforaethol CBSRhCT, yn benodol mewn perthynas â'r flaenoriaeth ganlynol:

- Ffyniant: Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.
  - Sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych.

9.2 Bydd rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith yn cyfrannu at gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae sylw dyledus wedi'i roi i'r Pum Dull o Weithio, sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf honno.

## 10. <u>CASGLIAD</u>

10.1 Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i bob disgybl ni waeth beth yw eu hanghenion fel disgybl, o'r blynyddoedd cynnar, trwy'r ysgol gynradd ac uwchradd, ac ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch. Mae hyn yn cyd-fynd â'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen 'Cymraeg 2050'.

10.2 Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd angen datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd ac ymgynghori arno. Bydd modd i wybodaeth ynglŷn â hyn gael ei drafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio yn y dyfodol.

**Gwybodaeth Arall:**
***Pwyllgor Craffu Perthnasol –*** Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

**FEL SY WEDI'I DIWYGIO GAN**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**16 MAWRTH 2021**

**CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL 2020**

**ADRODDIAD AR Y CYD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A'R CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT**

**Papurau Cefndir**

- Cabinet – 28 Ionawr 2021